OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3985

## Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001

**Adennill symiau mewn perthynas â thaliadau gan awdurdodau lleol**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os oes awdurdod cyfrifol wedi gwneud taliad mewn perthynas â pherson yn unol ag adran 50(6) (rhwymedigaeth yr awdurdod cyfrifol i wneud taliadau o dan drefniadau a oedd yn bodoli ar y diwrnod penodedig os nad oes gwasanaethau'n cael eu darparu o'r diwrnod hwnnw ymlaen yn unol ag adran 50(3) i (5)).

(2) At ddibenion adran 50(7) y swm sy'n adenilladwy oddi ar y person yw'r swm a fyddai'n adenilladwy o dan adran 22 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) a rheoliadau a wnaed o dan yr adran honno(**2**)) os oedd y llety'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod cyfrifol o dan Ran III o'r Ddeddf honno, ac os oedd swm y taliad gan yr awdurdod yn unol ag adran 50(6) yr un fath â'r gyfradd safonol a bennwyd ar gyfer y llety y cyfeirir ato yn adran 22 o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1948 p.29.
(**2**) Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 yw'r rheoliadau hyn, sef O.S. 1992/2977 fel y'u diwygiwyd mewn perthynas â Chymru gan O.S. 1993/964 a 2230, O.S. 1994/825 a 2385, O.S. 1995/858 a 3054, O.S. 1996/602, O.S. 1997/485, O.S. 1998/497 a 1730 ac O.S. 2001/276(Cy.12) a 1409(Cy.95).